

Iau 30<sup>ain</sup> Mawrth 2017

Annwyl Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a'r Tîm Cymorth,

Diolch am roi cyfle i mi ddarparu adborth ar eich Aseiad o Lesiant Lleol drafft a anfonwyd i'r swyddfa yn Chwefror 2017.

Y peth cyntaf yr hoffwn ei wneud yw mynegi'n glir fy mod yn gwerthfawrogi'r heriau yr ydych wedi eu hwynebu wrth ddatblygu'r aseiad y tro hwn, ac rwy'n llongyfarch eich tîm ar eu gwaith caled a'u hymdrechion.

Fy mhrif ffocws wrth ddarparu'r adborth hwn yw eich helpu i ystyried i ba raddau y bydd y gwaith a wnaethpwyd gennych hyd yn hyn yn eich helpu i bennu eich cydamcanion ac ymgymryd â chynllunio llesiant. I mi, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n rhoi'r cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru i newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru a llunio penderfyniadau ar y cyd a chyflwyno gwasanaethau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae eich aseiad yn rhan allweddol o hyn, a thra fy mod yn gwerthfawrogi na fydd yn cynnwys y darlun i gyd ar yr adeg y byddwch yn ei gyhoeddi, mae'n bwysig ei fod yn amlinellu'n glir a deallus ddarlun o lesiant Sir y Fflint a llesiant eich cymunedau, sy'n berthnasol yn awr ac i mewn i'r dyfodol. **Dylai eich aseiad eich galluogi i nodi'n glir yr heriau ar gyfer eich ardal a'ch cymunedau, gan ddatblygu cydamcanion sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.**

Ynghlwm gweler dogfen sy'n rhoi adborth manwl ar eich aseiad drafft, ac sy'n eich annog i feddwl am yr hyn y dylech fod yn adeiladu arno yn y tymor byr, wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, ond hefyd yn nhermau asesu llesiant yn y dyfodol.

Yn ystod 2017-18 un o'ch tasgau allweddol fydd datblygu eich cydamcanion llesiant fel rhan o'ch Cynllun Llesiant. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i chi geisio fy nghyngor ar sut i symud tuag at gwrdd â'ch amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum dull o weithio).

Isod rwy'n amlinellu rhai o'r pethau y byddaf yn edrych amdanynt wrth i fy swyddfa barhau i weithio gyda chi. Yn fy marn i mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) sydd wedi dangos eu bod eisoes yn talu sylw i'r pum dull o weithio, mewn sefyllfa dda i ddatblygu amcanion a Chynlluniau Llesiant a fydd yn fanteisiol i bob sefydliad sy'n ymgyfrannu, yn nhermau macsimeiddio eu cyfraniad cyfunol i'r nodau, a mynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Rydych wedi mabwysiadu ymagwedd ddiddorol tuag ag strwythuro eich asesiad, o gwmpas 35 pwnc sy'n cyfuno heriau polisi allweddol ac asedau, a dylai hyn eich galluogi i ddiweddarau eich asesiad a'i gadw fel dogfen 'fyw'. Mae rhai o'r pynciau hyn yn cael eu hystyried o fewn naratif ehangach, gan alluogi archwiliad o'r gydberthynas a phynciau eraill neu benderfynyddion llesiant. Fodd bynnag credaf y gellid cryfhau eich asesiad drwy fwy o integreiddio a mwy o archwiliad o berthynas polisi/heriau rhwng pynciau ac o fewn cyd-destun y nodau cenedlaethol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth feddwl am rolau perthnasol eich gwahanol sefydliadau wrth **facsimeddio eich cyfraniad** i'r nodau.

Deallaf fod llawer o'ch ymagwedd tuag at ennyn ymgyfraniad pobl a chymunedau yn natblygiad eich asesiad wedi ei seilio o gwmpas mecanweithiau ymgysylltu presennol. Wrth i chi symud ymlaen i ddatblygu eich asesiad a symud tuag at gynllunio llesiant, bydd yn bwysig i chi roi ystyriaeth ofalus i ymgyfraniad pobl mewn dull sy'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i chi i ddeall eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarperir gennych a beth a olyga hyn i'w llesiant. Bydd yn bwysig i chi wneud yn siŵr eich bod yn rhoi cyfleoedd i ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion ddylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion, a medru dangos bod eu mewnbwn yn cael effaith ar yr hyn a wneir gennych.

Mae yna rai enghreifftiau da yn yr asesiad lle mae data **hirdymor** wedi ei ddefnyddio i asesu llifogydd, poblogaeth sy'n heneiddio, newid economaidd a newid hinsawdd ac roeddwn o'r farn fod eich adrannau ar '*beth a wyddom a beth fedrwn ni ei ragweld am y dyfodol*' yn ddiddorol. Ar y cyfan credaf fod angen i chi roi mwy o ystyriaeth i'r hirdymor wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, yn arbennig i effaith posibl tueddiadau hirdymor ar y 35 pwnc a'r saith ardal gymunedol.

Un o elfennau allweddol y ddeddfwriaeth yw'r ffocws ar **atal problemau** rhag digwydd yn hytrach na gwneud dim mwy nag ymateb iddynt ac rwy'n gweld hyn fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer eich cynllunio llesiant. Mae hwn yn faes lle buaswn yn eich annog i dalu mwy o sylw i'r hyn a ddywedir wrthyf gan y data a'r dystiolaeth, er mwyn gwneud synnwyr o'r heriau allweddol a nodwyd gennych.

Ac mae **cydweithio**'n hanfodol i hyn i gyd - mae'n amlwg eich bod wedi gwneud cychwyn defnyddiol drwy weithio 'ar y cyd' â BGCau eraill ar y ddarpariaeth a'r defnydd o ddata. Credaf fod gennych yn awr y cyfle i symud eich gwaith partneriaeth i lefel newydd gan gydweithio gydag adnoddau a darganfod dulliau newydd o ddelio â hen broblemau. Dylai eich asesiad eich helpu i adnabod y cyfleoedd mwyaf ffrwythlon ar gyfer gwneud hyn.

Mae eich tîm cymorth wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r asesiad hwn a bydd ar y bobl sy'n cynorthwyo eich cynllunio llesiant angen eich cefnogaeth lwyr. Nodweddion allweddol yn hyn o beth, mae'n debygol, fydd yr arweinyddiaeth a ddangosir gennych a'ch parodrwydd i roi gofod a chaniatâd i bobl archwilio dulliau newydd o fynd i'r afael â hen broblemau. Yn ei hanfod, mae'r newid hwn mewn diwylliant yn crynhoi natur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



Gan ragweld y gofyniad i mi roi cyngor i chi ar sut y dylech gymryd camau i gwrdd â'ch cydamcanion, hoffwn weld manylion pellach o'r modd y byddwch yn defnyddio'ch asesiad wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Buaswn yn gwerthfawrogi'n fawr petaech yn rhoi gwybod i fy swyddfa sut yr ydych wedi ymateb i'n hadborth. Bydd hefyd yn bwysig i chi roi fy adborth i'r pwyllgor craffu sy'n arwain y gwaith o graffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Adnabuwyd yr angen am ymagwedd fwy adeiladol tuag at graffu sy'n rhan bwysig o facsimeiddio gweithredu ar y cyd ar lefel leol.

Gobeithiaf fod ein hadborth yn glir ac yn ddefnyddiol yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, rhaid i mi ailadrodd nad wyf yn gweld eich asesiad fel digwyddiad unwaith ac am byth. Wrth symud ymlaen byddaf yn rhoi cyfleoedd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rannu dysgu ac arfer gorau a fydd gobeithio yn ennyn eich ymglyfraniad, er mwyn darparu'r llwyfan gorau i chi ar gyfer cyflawni eich ymrwymadau parhaus o dan y Ddeddf.

Dymuniadau gorau

Sophie Howe  
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

## Adborth oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar Aseiad o Lesiant Lleol draft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint

### 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi adborth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint ar *Ymgynghoriad ar Aseiad o Lesiant Lleol drafft Sir y Fflint* yn Chwefror 2017. Mae'r adborth hwn yn seiliedig ar yr adolygiad a wnaed gan ein tîm prosiect<sup>1</sup> o'r dogfennau a'r trafodaethau allweddol canlynol:

- Aseiad o Lesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint Chwefror 2017
- Aseiad o Lesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint – Crynodeb Drafft Chwefror 2017
- Crynodeb Drafft - Chwefror 2017
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Flint – Aseiad o Lesiant Lleol, Proffiliau o 7 Ardal Trafodaeth dros y ffôn rhwng y tîm prosiect ac aelodau tîm y BGC 22<sup>ain</sup> Mawrth

Y bwriad yw i'r adborth hwn gael ei ddefnyddio i drwytho cyhoeddi'r aseiad yng ngwanwyn 2017 - lle mae hynny'n bosibl o gydnabod yr amserlenni sy'n bodoli - ond mae'n bwysicach ei fod yn trwytho prosesau parhaus datblygiad eich aseiad a'ch cynllunio llesiant.

Mae'r aseiad wedi ei adolygu gan y tîm prosiect a ddefnyddiodd set o feini prawf, wedi eu datblygu'n arbennig ar gyfer ffocysu ar agweddau ar gynhyrchiad a methodoleg ac ar y dadansoddiad o'r aseiad a gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r meini prawf hyn yn ein galluogi i adolygu ystod eang o ymagweddau tuag at aseiad lleol o lesiant, sydd wedi cael eu defnyddio ledled Cymru. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i ddarparu adborth pwrpasol i FGCau, gan amlygu cryfderau a meysydd â photensial ar gyfer eu gwella. Bydd yr ymagwedd gyson hon hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i adnabod materion allweddol ac amlygu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, ar lefel Cymru-gyfan, ar gyfer yr ystod eang o gyrff y sector cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n ymgyfrannu yng nghynllunio llesiant.

---

<sup>1</sup> Dr. Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures, Dr. Andrew Flynn, Prifysgol Caerydd a Dr. Mark Lang, Mark Lang Consulting

Tra'n bod yn deall bod yr Asesiadau Llesiant yn broses barhaus, ac y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn y misoedd sy'n dod, mae'n bwysig eich bod yn nodi a gweithredu ar y sylwadau canlynol wrth i'r asesiad Llesiant gael ei ddatblygu, ei addasu a'i gynyddu i drwytho cynllunio Llesiant ar draws y BGC.

## 2. Nodau Llesiant cenedlaethol

Un o'r materion yr ydym wedi ei ystyried yw pa mor effeithiol yr adlewyrchwyd y saith nod Llesiant cenedlaethol yn yr asesiad, gan fod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i FGCau ddangos sut y maent yn cynllunio i facsimeiddio eu cyfraniad i'r nodau. Mae'n bwysig bod yna gysylltiad clir rhwng y data yn yr asesiadau, y dehongliad ohono a'n dealltwriaeth ni o bob agwedd ar lesiant yn ein cymunedau. Deallwn y bydd y BGCau yn datblygu gwahanol ddulliau o adlewyrchu Llesiant; yn achos Sir y Fflint drwy 35 pwnc Llesiant, gan gyfuno heriau polisi allweddol ac asedau.

Deallwn o'n sgwrs dros y ffôn yr adnabuwyd y pynciau hyn o fewn y bartneriaeth. Byddai'n ddefnyddiol i'r asesiad gael eglurhad o paham y mabwysiadwyd yr ymagwedd hon a paham y dewiswyd y rhain fel materion allweddol ar gyfer ein cymunedau ar draws Sir y Fflint. Byddai hefyd yn ddefnyddiol i'r asesiad i gynnwys adran i helpu'r darllenydd i ddeall yn fwy clir sut mae'r ymgynghoriadau amrywiol wedi trwytho detholiad y pynciau hyn.

I'r BGC ddeall sut y gall facsimeiddio'i gyfraniad i'r saith nod Llesiant cenedlaethol, credwn y bydd angen i'r berthynas rhwng y 'ffrâm' hon yn yr asesiad â'r nodau cenedlaethol gael eu deall a'u cyfleu yn glir. Gallwn weld o'r ddogfen gryno bod y 35 pwnc wedi eu cynnwys o dan benawdau cyffredinol ar gyfer y saith nod Llesiant, ond gallai arwyddocâd hyn fod yn gliriach. Beth a ddywed hyn wrthym am gyfraniad y pynciau hyn i'r nodau? Sut fedrai'r BGC wneud y cyfraniad mwyaf yn yr ardaloedd a adnabuwyd? Pa ardaloedd o weithgaredd y BGC sydd ag angen gwella'u cyfraniad? Ble mae'r cyfleoedd ar gyfer cyflwyno nodau niferus drwy fynd i'r afael â materion allweddol? Oes yna unrhyw nodau nad yw'r BGC yn cyfrannu atynt drwy'r 35 pwnc ac arnynt angen deall sut y *gallent* gyfrannu?

Mae hefyd yn ddefnyddiol i weld y matrices yn 1.4 yn 'mapio' nodau Llesiant yn erbyn y 35 pwnc. Tra'i bod yn amlwg bod yna resymeg glir dros y 'mapio', nid ydym yn glir am gyfraniad neilltuoel pob un o'r 35 pwnc i'r nodau. I ychwanegu at ystyr y tabl byddai'n ddefnyddiol i weld y naratif yn disgrifio pob perthynas.

Gallai hyn gael ei gynnwys mewn atodiad, neu fel rhan o'r tudalennau gwe (efallai o fewn y tab '*porwch yn ôl y thema lesiant*'). Byddai hefyd yn ddefnyddiol i ddeall pa fewnwelediad a roddwyd gan yr ymarfer hwn i'r BGC? Deallwn fod y materion yn drawsbynciol, ond beth a ddywed hyn wrth y BGC am y

gydberthynas hollbwysig rhwng y 35 pwnc? (caiff hyn ei archwilio ymhellach isod yn adran 8 ar *Integreiddio*).

Byddai'r dadansoddiad hwn yn trwytho datblygiad y Cynllun ac yn galluogi'r BGC i ddeall arwyddocâd posibl effaith gweithredu ar y cyd i facsimeiddio eu cyfraniad.

Mae'n gadarnhaol i weld Adran 5 hefyd yn cysylltu â'r mesurau llesiant cenedlaethol. Dengys hyn yn glir i ni fod amrywiaeth mawr o ddata ar gael ar lefel lleol. Eto, byddai peth dehongliad o'r tabl hwn yn ddefnyddiol. Beth ddywed hyn wrthym am yr hyn sydd ei angen ar lefel cenedlaethol ar gyfer datblygu sylfaen dystiolaeth llesiant? Beth fedr y BGC ei hunan ei wneud i fynd i'r afael â'r bylchau data? (gweler sylwadau nes ymlaen ar fylchau data yn 11 isod).

### 3. Cynnwys data - ardal a lle

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau ffocysu ar yr ardal a'r 'lle' ac adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ledled eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data eich asesiad yn gwneud hyn. Tra deallwn o'n sgwrs dros y ffôn yr anhawster o ddatblygu darlun o lesiant o bersbectif meintiol, a bod gwaith ar hyn o bryd ar y gweill i ddatblygu'r saith Proffil Ardal, mae hwn yn faes lle byddem yn disgwyl i'r asesiad ddatblygu.

Yn y brif ddogfen mae data LSOA a MSOA wedi ei ddefnyddio'n dda yn rhai o'r 35 pwnc (yn arbennig tlodi) ac yn rhoi mewnwleidiad clir ar lefel seiliedig ar le. Mae'r data hwn ynghyd â data ONS hefyd wedi trwytho'r saith proffil ardal. Fodd bynnag ar hyn o bryd, ni chaiff y saith proffil eu crybwyll yn y brif ddogfen na'r dogfennau cryno, ac ar hyn o bryd maent yn cynnwys rhestrau o ddata sydd ar gael, gyda lle ar gyfer mwy o ddehongli i'n galluogi i ddeall cryfderau arbennig a heriau yn yr ardaloedd hyn. Dealltwriaeth gyfyngedig o wahaniaethau o fewn neu rhwng ardaloedd, anghydraddoldebau a materion lleol arbennig o ddifrifol a roddir gan yr ymagwedd bresennol.

Gellid hefyd gryfhau'r brif ddogfen i roi mwy o ddealltwriaeth o'r gwahaniaethau gofodol yn y cymunedau amrywiol ar draws yr ardal. Er enghraifft: pam fod y fath fwllch mewn disgwyliad oes rhwng gwahanol rannau o'r ardal, beth yw'r penderfynyddion? Oes yna wahaniaethau yn hyfywedd ffermio a dilyniant ar draws Sir y Fflint? Oes yna ardaloedd o Sir y Fflint lle mae ynysu gwledig yn hynod o ddifrifol? Oes yna broblemau ffordd o fyw a gordewdra ar draws Sir y Fflint neu a yw'r rhain yn fwy cyffredin mewn cymunedau arbennig? Ble mae'r sector gwirfoddol yn fwyaf gweithgar a beth maent yn ei wneud?

Gellid mynd i'r afael ag adeiladu darlun o lesiant lleol ar gyfer y 35 pwnc drwy ofyn y cwestiwn: “oes yna wahaniaethau arwyddocaol a phenodol rhwng ardaloedd? yn erbyn pob un a gofyn i awduron a chyfranwyr i ystyried y cwestiwn hwn, yn ogystal â rhestru ffynonellau data a bylchau.

Deallwn bod gwaith eisoes ar y gweill ar gydnheredd cymunedol ar gyfer Treffynnon a Halway a'i bod yn fwriad i ddatblygu'r gwaith hwn. Deallwn hefyd bod dewis y saith ardal yn seiliedig ar 'olion troed' Cynghorau Tref a Chymuned. Ar y cyfan, byddem yn hoffi gweld datblygiad darlun mwy ansoddol a dealltwriaeth o asedau a heriau cymunedau arbennig ar draws Sir y Fflint fel rhan o'r broses cynllunio llesiant.

#### 4. Cynnwys data – anghenion gwasanaethau cyhoeddus

Credwn ei bod yn bwysig bod gennych ddarlun clir o wahanol anghenion pobl a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol, a bod goblygiadau'r anghenion hyn wedi eu deall. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data'r asesiad yn ffocysu ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus, o fewn cymunedau ac ar gyfer grwpiau arbennig ac unigolion.

Blaenoriaeth i fy swyddfa yw annog cyrff cyhoeddus a BGCau i sicrhau eu bod yn y lle cyntaf yn ennyn ymgyfraniad pobl a chymunedau mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o weledigaeth iddynt o brofiadau pobl o gyrff cyhoeddus, ac yn ailweithredu ar y mewnwediadau hyn pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ac yn cyflwyno gwasanaethau.

Gellid cryfhau'r asesiad drwy roi mwy o weledigaeth i oblygiadau posibl pob un o'r 35 pwnc i'r sector cyhoeddus – yn nhermau ei rôl, lefel presennol o gefnogaeth ac anghenion gwasanaethau yn y dyfodol. Caiff hyn ei wneud yn dda mewn perthynas ag agendau iechyd a gofal cymdeithasol a dylai adrannau eraill efelychu'r lefel hwn o ddadansoddi a dehongli (gweler sylwadau ym mhwynt 5 isod).

O dan lawer o bynciau, cyfyngedig yw'r dehongliad o'r data sy'n ein galluogi i ddeall y digonolrwydd, y pwysau a'r angen i'r gwasanaethau cyhoeddus addasu i gwrdd â'r galw. Yn ogystal â rhoi disgrifiad o'r sefyllfa bresennol ar dlodi a llifogydd, er enghraifft, pa heriau a gyflwynir o dan y materion hyn i'r sector cyhoeddus yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor? Beth yw heriau gwasanaeth, heriau ariannol a gofodol, a sut y gallent newid dros amser yng nghyd-destun Sir y Fflint?

Mae'n amlwg eich bod wedi casglu llawer o dystiolaeth yn y broses asesu y gellid ei ddwyn at ei gilydd mewn crynodeb ehangach o'r bylchau arwyddocaol mewn cyflwyniad gwasanaethau cyhoeddus a'r heriau i wasanaethau dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Dylai fersiynau'r dyfodol o'r asesiad fynd i'r afael â hyn er mwyn trwytho'r BGC ynglŷn â ble mae angen gweithredu.



## 5. Dadansoddiad meintiol ac ansoddol

Rydym yn cydnabod yr her o gydbwysu data, mewnwelediadau a thystiolaeth ar gyfer cynhyrchu dealltwriaeth orffenedig o lesiant cymunedau ac unigolion yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Un o'n prif ystyriaethau fu i ba raddau y mae dadansoddiad meintiol ac ansoddol a dulliau dadansoddi wrth asesu'n rhoi darlun cyffredinol o lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth ddechreuol ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau. h.y. beth sydd o bwys mewn gwirionedd?

Mae yna amrywiaeth yn y modd y mae pob pwnc yn sefydlu'r cyd-destun strategol ar gyfer y 'mesurau' a ddefnyddir ganddo, ac yn ansawdd dehongli'r data o dan bob pwnc. Mae angen mwy o gysondeb drwy'r 35 pwnc ar baham mae'r mater hwn o bwys arbennig i Sir y Fflint, goblygiadau posibl ar gyfer llesiant cymunedol, a yw'r sefyllfa bresennol yn cael ei rheoli'n effeithiol, a goblygiadau'r sefyllfa hon i wasanaethau cyhoeddus.

Byddai'r asesiad hefyd ar ei ennill o gael tystiolaeth o'r modd y mae'r ymgynghoriadau yr ymgymeryd â hwynt wedi trwytho'r dadansoddiad. Mae'r asesiad anghenion poblogaeth wedi trwytho rhai o'r 'pynciau' iechyd yn glir – beth a ddywedodd yr ymgynghoriadau eraill ar y gyllideb a grwpiau anodd eu cyrraedd wrthym am lesiant pobl a gwasanaethau cyhoeddus?

Mae'r ffordd y mae adrannau wedi eu trefnu ar gyfer y 35 pwnc yn gadarnhaol, ac yn rhoi strwythur y gellir ei lenwi â data newydd wrth iddo ymddangos, o dan y penawdau: *beth sy'n digwydd nawr; beth a wyddom neu beth fedrwn ni ei ragweld am y dyfodol*. Gellid datblygu'r ymagwedd hon drwy ystyried cwestiynau pellach ar gyfer yr asesiad a'r Cynllun megis: Beth mae'r ymgynghoriadau wedi eu dweud wrthym? Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am lesiant? Ydy ymagweddau presennol yn ddigonol?; Pa weithredu pellach sydd ei angen?; Pa weithredu ar y cyd fedr fynd i'r afael â'r mater hwn?

Mae'n amlwg bod llawer o amrywiaeth yn ansawdd y mewnbwn yn y 'ffrâm' hon ar hyn o bryd, ac mewn rhai meysydd mae angen ei wella (gweler sylwadau penodol isod). Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi adborth mwy penodol ar draws pob un o'r 35 pwnc o dan nifer o 'themâu' cyffredin:

*arwyddocâd i Sir y Fflint ac effaith ar lesiant* – gellid gwella rhai adrannau drwy ddehongli'n fwy eang arwyddocâd y mater ar y lefel lleol. Mae'r adrannau hyn yn rhoi disgrifiadau cyffredinol am *paham* mae pethau'n bwysig, gyda dehongliad cyfyngedig ar gyfer yr ardal e.e. newid hinsawdd; tlodi tanwydd; cychwyn gorau mewn bywyd; dementia a ffyrdd iach o fyw. Sut mae'r 'pynciau' hyn yn amlygu eu hunain yn Sir y Fflint – a beth yw eu goblygiadau i lesiant mewn gwahanol gymunedau?





*ffocws ar heriau a digonolrwydd ymagweddau presennol* – gellid gwella rhai adrannau drwy ddisgrifio'n well yr heriau i lesiant fel canlyniad i 'fater' yn hytrach na dim ond disgrifio'r sefyllfa neu ddweud paham mae'r mater yn bwysig. Tra gall hyn fod yn ddealladwy, mae angen ei wneud yn fwy dealladwy e.e. beth yw'r heriau penodol i lesiant ymhlyg mewn tloedi ac amddifadedd, yr amgylchedd naturiol a llifogydd ac, a yw ymagweddau presennol yn ddigonol ar gyfer cwrdd â'r heriau yn yr ardal?

*cyd-destun ehangach ar gyfer y 35 pwnc* – mewn llawer achos mae'r dangosydd neu'r mesur yn 'sbarduno'r' naratif llesiant yn hytrach na'i gynorthwyo. Byddai rhai adrannau'n elwa o ddarparu naratif ehangach ar lesiant o dan y 'mater' – er enghraifft:

- *technoleg newydd* – gwasanaeth band eang a'i effaith ar yr economi yw'r 'mater' a gaiff y sylw mwyaf yn y fan hon, ond mae'n amlwg bod gan 'dechnoleg newydd' effeithiau mawr cymdeithasol ar rwydweithiau, cydlyniad, ac yn y blaen nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiad ar hyn o bryd;
- *trafnidiaeth* – mae diogelwch ar y ffyrdd yn amlwg yn bwysig, ond pa mor gydnherth yw seilwaith trafniadaeth dros y tymor canolig i'r hirdymor yn yr ardal?
- *gwirfoddoli* – mae niferoedd yn bwysig ond beth a gynigir gan yr adran wirfoddol a ble?
- *diwylliant* – ceir ffocws cryf ar asedau adeiledig – ond pa effaith a gaiff bwyd, diod, ffermio a digwyddiadau diwylliedig ar draws Sir y Fflint ar lesiant?
- *yr iaith Gymraeg* - mae'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg yn amlwg yn bwysig, ond ychydig o eglurhad a geir ar ba mor allweddol yw'r mater hwn i lesiant a diwylliant yn *benodol* yn Sir y Fflint;
- *diffyg dehongli data* – mewn rhai achosion, darperir data heb unrhyw gyd-destun nac eglurhad e.e. cyfleoedd cyfartal a chydlyniad; mewn achosion eraill mae ffocws ar berfformiad, yn arbennig mewn ysgolion ac ailgylchu. Beth mae'r rhain yn ei ddweud wrthym am lesiant yn Sir y Fflint? A yw'r ysgolion yn ddigonol, beth yw'r pwysau ar y gwasanaeth hwn? Beth yw'r goblygiadau i gydlyniad cymunedol yn deillio o'r data sydd ar gael? Oes yna ddiffyg cydlyniad mewn cymunedau arbennig? Gellid gwella'r adrannau hyn gan beth naratif deongliadol;
- *bylchau gwybodaeth* – dylai pob un o'r 35 pwnc ddarparu gwybodaeth ar ba wybodaeth sy'n hollbwysig ar gyfer deall y 'mater' a ble mae bylchau'n bodoli – dylai hyn gael ei grynhoi a'i ddadansoddi (gweler adran 11 isod).

Mae yna rai enghreifftiau da sy'n dangos ble mae'r asesiad yn darparu dehongliad ardderchog, dealltwriaeth glir o'r modd y mae hyn yn berthnasol i Sir y Fflint gyda chydbwysedd da rhwng data meintiol ac ansoddol i ddangos yr heriau i lesiant. Mae lefel y dadansoddiad ar gadw pobl ifanc, y boblogaeth sy'n heneiddio, iechyd meddwl, ynysu cymdeithasol, anghenion tai, sgiliau a thwristiaeth o bwys arbennig. Mae yna, fodd bynnag nifer o bynciau ag angen eu gwella i roi gwell dealltwriaeth o'u harwyddocâd, yn cynnwys tlodi tanwydd, llifogydd, newid hinsawdd a'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth –ychydig o wybodaeth, o ddehongli lleol neu o ddealltwriaeth a roddir am yr heriau sy'n allweddol i Sir y Fflint.

Buaswn yn disgwyl gweld mwy o gysondeb yn y ddarpariaeth a'r defnydd a wneir o ddata meintiol ac ansoddol ym mhob un o'r meysydd uchod wrth i gynllunio llesiant fynd rhagddo yn Sir y Fflint.

## 6. Heriau allweddol

Mae'n bwysig bod asesiadau llesiant, wrth asesu cyflwr llesiant, yn ffocysu ar heriau allweddol i lesiant yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor, yn ogystal â'r priodolddau cadarnhaol a'r asedau yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys cyfaddawdau rhwng gwahanol nodau llesiant, tensiynau, asedau a diffygion o fewn yr ardal.

Fel y disgrifiwyd mewn pwyntiau cynharach yn y ddogfen hon, mae'r asesiad, mewn manau, yn darparu naratif cryf iawn ar heriau allweddol i Sir y Fflint. Fodd bynnag mae'r materion hyn yn aml o fewn darnau o destun ac ni thelir digon o sylw iddynt. Byddai mwy o ddehongli, fel y nodwyd, yn helpu i ddwyn sylw at densiynau allweddol, cyfaddawdau a heriau. Er enghraifft effaith Brexit, newid hinsawdd, caledi, diwygio lles, poblogaeth sy'n heneiddio, tueddiadau iechyd, hygyrchedd gwledig – cyfeirir at y rhain nifer o weithiau, mewn llawer gwahanol gyd-destun. Mae yna lawer o ddata cyfoethog yn yr asesiad, y dylid ei ddwyn at ei gilydd mewn adran grynhoi gan ddarparu trosolwg strategol o'r penderfynyddion ehangach hyn o lesiant. Byddai'r trosolwg strategol hyn rhoi mwy o gyd-destun i'r 35 pwnc sydd wedi eu dethol.

Er enghraifft, tra'n bod yn deall bod Brexit yn dwyn ansicrwydd mawr, mae goblygiadau posibl, er enghraifft i gyllid ardaloedd gwledig, i gyllid seilwaith, a chyllid sgiliau, yn fater allweddol a fydd yn cael effaith ar Sir y Fflint ar draws pob un o'r 35 pwnc llesiant. Byddai'n ddefnyddiol i gynnwys peth myfyrdod ar yr effeithiau tebygol ar ddinasyddion wrth i'r BGC symud tuag at gynllunio llesiant.

Credwn hefyd y gellid cryfhau'r asesiad drwy ffocysu'n fwy clir ar asedau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yr ardal a beth mae'r asedau hyn yn ei ddarparu ar gyfer llesiant

cymunedol. Mae'n amlwg fod Glannau Dyfrdwy yn ased strategol sy'n dwyn llesiant economaidd, ond pa asedau eraill fedr gyfrannu at lesiant yn Sir y Fflint?

- Asedau economaidd poblogaeth sy'n heneiddio, yn nhermau sgiliau, gwirfoddoli, gwariant ymddeol, twristiaeth
- Cryfder y sector cymunedol wrth gynorthwyo llesiant cymdeithasol, natur rhwydweithiau cymdeithasol, ffabrig cymdeithasol trefi a phentrefi
- Rôl yr economi anariannol mewn llesiant cymunedol, asedau ffisegol, banciau bwyd, trosglwyddo asedau cymunedol ac yn y blaen a lefelau (a chryfderau) gofal di-dâl
- Bywiogrwydd diwylliant o gwmpas y celfyddydau, iaith, rhwydweithiau cymdeithasol, bwyd a diodydd lleol, sioeau amaeth, rhwydweithiau gwybodaeth a gwirfoddoli

Gellid hefyd gryfhau'r asesiad (fel y nodwyd ym mhwynt 3) drwy ddarparu gwell dealltwriaeth o'r modd y mae heriau'n amlygu eu hunain mewn gwahanol ardaloedd o Sir y Fflint, a pha gymunedau arbennig sy'n gydnerth neu sy'n agored i gael eu niweidio gan dueddiadau presennol a thueddiadau'r dyfodol. Dylai hyn gynnwys ynni critigol, dŵr a seilwaith trafndiaeth. Mae'r math hyn o wybodaeth o berthnasedd allweddol i'r BGC, darpariaeth gwasanaethau a llesiant cymunedol yn y dyfodol.

## 7. Ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos yn glir bod cydweithio ac ymgyfrannu yn ddau o'r pum dull o weithio sydd ag angen i FGCau eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. Fel canlyniad, bu gennym ddiddordeb arbennig yn lefel a dulliau ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio ar draws y bartneriaeth a ystyriwyd wrth gynhyrchu'r asesiad, yn cynnwys ymgysylltiad â chymunedau, y cyhoedd, y trydydd sector a sefydliadau'r sector preifat.

Nodwn o'r ddogfen a'n sgwrs dros y ffôn gyda thîm y BGC mai ymagwedd wedi ei harwain gan 'ymgysylltu' fu hon a bod ymgynghori ar gyllideb y Cyngor, gyda grwpiau anoddach eu cyrraedd a drwy'r Asesiad Anghenion Poblogaeth wedi bod ar y gweill yn Sir y Fflint. Deallwn hefyd bod ymgynghori pellach wedi digwydd gyda sefydliadau rhanddeilaid yn ystod mis Chwefror.

Tra'n bod yn deall y rhesymeg dros y dull hwn o fynd ati i leihau'r nifer o ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal gyda'r cyhoedd, fel y nodwyd ym mhwynt 5 uchod, nid yw'n glir ar hyn o bryd sut mae barn y gymuned wedi trwytho'r naratif na'r dadansoddiad o gwmpas y 35 pwnc sy'n fframio'r asesiad, a byddai'n ddefnyddiol petai hyn yn cael ei egluro'n fwy manwl. A ofynnwyd i bobl am lesiant, neu'r gwasanaethau'r Cyngor? A ofynnwyd iddynt am eu cymunedau neu a wnaeth yr ymgynghoriadau hyn ffocysu ar anghenion gwasanaethau unigolion? A ofynnwyd iddynt am ddarpariaeth gwasanaethau

cyfredol, neu ddyheadau am eu llesiant yn y dyfodol? Faint o bobl, busnesau a grwpiau wnaeth ymglyfrannu yn y gweithgareddau ymgynghori hyn?

Nid yw'n glir ar hyn o bryd i ba raddau mae'r cyhoedd a chymunedau, mewn gwirionedd, wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad ar eu *llesiant* dros ac uwchben trafodaeth ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Buaswn yn disgwyl i ddogfen yr asesiad terfynol roi eglurhad cliriach i ni am y modd y mae'r ymgynghoriadau a'r cyhoedd wedi helpu i ffurfio'r dadansoddiad ac i ba raddau y bydd eu hymgylltiad yn rhan o'ch llesiant o hyn ymlaen.

Mae'n beth cadarnhaol bod yr asesiad hwn wedi gweithredu fel catalydd i ddatblygu cydweithio ar draws y BGC, a sut mae'r asesiad eisoes yn dod yn ddefnyddiol mewn trafodaethau gyda Chyngor Gwirfoddol Sir y Fflint. Mae'n amlwg bod cyfraniad cryf wedi ei wneud gan bartneriaid allweddol yn nhermau darparu data a chynhyrchu'r dadansoddiad o fewn yr Asesiad. Byddwn yn annog cydweithio pellach yn y misoedd sy'n dod i fynd i'r afael â materion a amlygir yn yr adborth hwn, wrth i gynllunio llesiant fynd rhagddo yn Sir y Fflint.

## 8. Integreiddio

Un o amcanion allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw datblygu integreiddio ar bob lefel ar draws y sector cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig ein bod yn deall y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Fel canlyniad rydym wedi bod yn awyddus i ystyried faint o integreiddio sy'n bodoli rhwng polisi traddodiadol a seilios sefydliadol wrth gynhyrchu'r asesiad.

Fel yr amlinellwyd ym mhwynt 5 uchod, mae yna rai enghreifftiau ardderchog o ble mae awduron/cyfranwyr wedi ystyried y 'pwnc' o fewn naratif ehangach, gan eu galluogi i archwilio'r gydberthynas rhwng 'pynciau' eraill neu benderfynyddion llesiant – mae'r adrannau ar dai, cadw pobl ifanc ac ynysu gwledig o bwys arbennig. Fodd bynnag mewn llawer o'r 'pynciau' mae yna le ar gyfer mwy o ystyriaeth o ddata ochr yn ochr â data mewn adrannau eraill a lle i'r gydberthynas gael ei hystyried.

Yn gyffredinol mae lle i fwy o integreiddio a mwy o archwiliad o'r berthynas polisi/heriau rhwng pob thema – er enghraifft, ynysu gwledig ac iechyd meddyliol, datblygu economaidd a pherygl llifogydd, technolegau newydd a chydlynid cymdeithasol, twristiaeth ac asedau amgylcheddol. Mae angen archwilio'r gydberthynas a'i chydabod fel rhan o ymdrech ehangach i ddechongli'r data a gasglwyd hyd yn hyn. Mae hwn yn rhywbeth i'r BGC ei ystyried fel mater pwysig wrth iddo ddatblygu ei gynllunio llesiant.

## 9. Rhagwelediad a thueddiadau'r dyfodol

Un o heriau allweddol y ddeddfwriaeth yw ystyried llesiant yn y tymor byr, canolig *a'r hirdymor* drwy gydol yr asesiad a phroses y Cynllun. Mae gennym ddi-ddordeb yn lefel y rhagwelediad a'r defnydd a wneir o ddadansoddiad o thueddiadau'r dyfodol. Deallwn o'r sgwrs dros y ffôn bod yna gyfle i ddatblygu'r asesiad i gynnwys mwy o ddadansoddiad o effaith thueddiadau'r dyfodol ar lesiant a buaswn yn eich annog i dalu sylw i hyn o fewn y BGC ac yn rhanbarthol.

Yn gyffredinol mae angen rhoi mwy o sylw i effaith posibl thueddiadau'r hirdymor ar y 35 pwnc a'r Proffiliau Ardal ac mae hwn yn rhywbeth y byddem yn disgwyl ei weld yn gwella wrth i'r asesiad ar gynllunio ddatblygu, h.y. pa gymunedau sy'n arbennig o agored i niwed/gydnerth, ac ym mha fodd y maent yn agored i niwed neu'n gydnerth?

Mae yna rai enghreifftiau da yn yr asesiad lle mae data hirdymor wedi ei ddefnyddio i asesu llifogydd, poblogaeth sy'n heneiddio, newid economaidd a newid hinsawdd. Mae'n gadarnhaol i weld yr adran ar *'beth a wyddom a beth fedrwn ni ei ragweld am y dyfodol'*. Mae yna amrywiaeth yn y ffordd mae'r adran hon wedi ei chwblhau, ac mewn llawer achos, heb ei chwblhau, gydag adrannau'n dyfynnu fframweithiau statudol, ymyriadau a gynlluniwyd yn hytrach na ffocws sy'n edrych ymlaen ar heriau allweddol i lesiant dros y tymor canolig a'r hirdymor.

Dylid annog awduron yr adrannau hyn i ddehongli'r data i roi neges gliriach ar oblygiadau hirdymor y 'mater' i lesiant yn Sir y Fflint. Buaswn hefyd yn eich annog i nodi bylchau yn eich dealltwriaeth o'r thueddiadau hirdymor (gweler sylwadau ym mhwynt 11).

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu eu Hadroddiad Thueddiadau'r Dyfodol ym Mai 2017. Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnwys 6 thema allweddol: Poblogaeth, Economi, Adnoddau Naturiol a Newid Hinsawdd, Iechyd, Defnyddio Tir a Seilwaith a Newid Cymdeithasol. Bydd angen i'ch asesiad dalu sylw i'r data a gynhwysir yn hwn, ond dylai anelu at roi pwyslais eglurach ar heriau'r hirdymor i lesiant yn Sir y Fflint yn yr asesiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth.

## 10. Materion trawsffiniol

Mae integreiddio a chydweithio'n ganolog i gyrff cyhoeddus pan fyddant yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'w gweithgareddau. Un o'n hamcanion fu adolygu i ba raddau y mae'r asesiad wedi ystyried materion trawsffiniol ar gyfer gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae'n amlwg bod yna ystod o faterion rhanbarthol sydd wedi eu hamlygu drwy gydol yr asesiad, yn bennaf yn nhermau datblygu economaidd a thrafnidiaeth gydag eglurhad clir o rol Sir y Fflint yn nhermau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Cynghrair Merswy a Dyfrdwyd a Glannau Dyfrdwy.

Er gwaethaf hyn credwn y byddai dadansoddiad manylach o faterion rhanbarthol trawsffiniol allweddol sy'n effeithio ar Sir y Fflint wedi bod yn fuddiol, i drwytho proses eich cynllun llesiant. Gallai'r asesiad hwn ddarparu eglurhad cliriach o rôl yr ardal a'i pherthynas â'i hawdurdodau cyfagos, ac o fewn y rhanbarth yn nhermau darparu gofal cymdeithasol, rheoli tirwedd, rheoli perygl llifogydd, bioamrywiaeth, tai a seilwaith cydnerthedd yn nhermau dŵr, cludiant, ynni a seilwaith gwastraff. Bydd hefyd yn bwysig i FGCau ystyried casgliadau o asesiadau o lesiant lleol yn yr ardaloedd cyfagos wrth i'r cynllun ddatblygu, ac ystyried gwaith strategol partneriaid Cynghrair Merswy Dyfrdwy yn y meysydd pwnc hyn.

Nodwyd gennym o'r sgwrs dros y ffôn pa mor bwysig yw hi i'r asesiad drwytho gwaith y gwahanol bartneriaethau rhanbarthol, yn cynnwys y Bwrdd Arweinyddiaeth Ranbarthol ac yn ei dro fwydo gwybodaeth newydd o'r gweithgaredd rhanbarthol hwn yn ôl i'r asesiad. Mae'n amlwg bod gan y BGC rôl bwysig mewn hwyluso gwybodaeth a chynllunio ar y gwahanol lefelau llywodraethu hyn.

## 11. Ansawdd data a bylchau data

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau y bydd cynllunio llesiant yn broses barhaol, lle bydd y sylfaen dystiolaeth yn gwella'n raddol dros amser i alluogi cyrff cyhoeddus ac eraill i ddeall a chynllunio ar gyfer llesiant yn eu cymunedau. Rydym yn awyddus i ddeall ymagwedd BGCau tuag at ansawdd data a bylchau data yn ystod yr asesiad ac wrth i faterion data symud yn eu blaen.

Mae hwn yn faes lle gallai proses asesu Sir y Fflint gael ei chryfhau gan mai prin ar hyn o bryd yw'r arwyddion o fylchau data, ac nid oes llawer o fyfyrion ar ansawdd data ychwaith.

Buaswn yn eich annog i ddatblygu dealltwriaeth ehangach o fylchau data a chrynhoi'r rhain ar gyfer y 35 'pwnc' gan ffocysu hwyrach ar

- beth sydd arnom angen ei wybod dros y tymor byr ar gyfer yr asesiad
- ble mae angen i ni ddatblygu ein dealltwriaeth o lesiant fel BGC

Bydd dadansoddiad cyffredinol o'r math hwn hefyd yn bwysig ar gyfer deall a oes yna unrhyw batrymau mewn anghenion data o bob rhan o'r 35 pwnc, a beth yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Byddai'n fanteisiol i'r BGC ddeall sut y gallai wella'i ddealltwriaeth a ble all fod yna angen adnoddau. Byddai hyn yn galluogi'r BGC i adeiladu ar waith cyfredol a chynllunio ar gyfer gwella ansawdd data yn ystod y flwyddyn nesaf a thu hwnt, gan helpu partneriaid y BGC i adeiladu ymchwil data a rheoli i mewn i'w busnes a'u cynllunio corfforaethol. Byddai hefyd yn rhoi arwydd o anghenion y BGC i Lywodraeth Cymru, y Swyddfa ac Uned Archwilio Cymru.

## 12. Y Defnydd o'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'r arweiniad statudol yn gosod cyfrifoldeb ar FGCau i *facsimieiddio*'u cyfraniad i'r nodau llesiant drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu dull o weithio. Rydym wedi bod yn awyddus i ddeall sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi cael eu defnyddio yn ystod asesiadau llesiant.

Mae yna weithgareddau sy'n dangos yr egwyddor datblygu cynaliadwy:

*Hirdymor* – drwy ddefnyddio data hirdymor o dan y 35 pwnc

*Ymglyfraniad* – drwy'r gwaith ymgynghori yr ymgwymerwyd ag ef

*Cydweithio* – drwy ddim prosiect y BGC ac ymglyfraniad rhanddeiliaid

*Atal* – drwy'r drafodaeth o ymyriad cynnar yn arbennig yn nhermau datblygiad yn ystod y blynyddoedd cynnar

Fodd bynnag ychydig o dystiolaeth a geir sy'n dangos bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wedi ei defnyddio fel modd o weithio yn yr asesiad hwn (gweler sylwadau ar *Integreiddio* o dan bwyt 9). Nid oes unrhyw gyfeiriad at yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio fel y nodir yn y statud.

Mae'n bwysig i'r BGC ddefnyddio'r egwyddor hon i ddylanwadu ar eu dewis o wrthrychau llesiant yn y cynllun llesiant a dangos wrth ddewis y gwrthrychau hynny:

- bod mesurau ataliol wedi eu hystyried
- bod cydweithio wedi cael ei archwilio
- bod yr unigolion a'r cyrff priodol wedi ymglyfrannu
- bod ymagwedd integredig wedi ei mabwysiadu
- bod effeithiau hirdymor ar gymunedau wedi eu hystyried



Mae hwn yn faes lle buaswn yn disgwyl gweld y broses asesu'n gwella rhwng nawr a chynhyrchiad y cynllun.

### 13. Edrych ymlaen at gynhyrchu'r cynllun

Mater hollbwysig i'n hadolygiad o'r asesiad hwn oedd ystyried a oedd y ddogfen yn eglur ynghylch y modd y byddai'r gwaith yn cael ei symud yn ei flaen i ddatblygu amcanion lleol a chynhyrchu cynllun.

Dyma faes arall lle gellid cryfhau'r asesiad. Mae angen i'r ddogfen a'r deunydd gwe atodol fod yn gliriach am: y camau nesaf; sut fedr unigolion a sefydliadau barhau i ymgyfrannu; yr amserlen, a beth mae'r Cynllun yn bwriadu ei wneud. Mae'n bwysig bod yr eglurhad yn cyfleu sut fydd y deunydd a gasglwyd ar gyfer yr asesiad yn cael ei ddefnyddio i fformiwleiddio amcanion y BGC.

### 14. Trosolwg

Mae'r dadansoddiad dogfennol uchod wedi adnabod nifer o feysydd lle gallai'r Asesiad, yn ein barn, gael ei gryfhau, yn y tymor byr, cyn iddo gael ei gyhoeddi a hefyd dros y tymor canolig wrth i'r dadansoddiad o'r ymateb ddatblygu ac wrth i'r Cynllun gael ei gynhyrchu. Hefyd gwnaethom drefnu galwad ffôn i drafod yr asesiad gydag aelodau o dîm y BGC sydd wedi ymgyfrannu yn y broses. Bwriad yr alwad ffôn oedd rhoi cyfle i ni egluro/archwilio materion arbennig a amlygwyd yn ein hadolygiad cyntaf a galluogi'r BGC i roi sylw i faterion sy'n rhan o gyd-destun ehangach cynhyrchiad yr asesiad.

Mae nifer o themâu eang cylchol wedi dod i'r amlwg o'n hadolygiad a'n sgwrs. Mae'n amlwg bod hon wedi bod yn dasg enfawr dros gyfnod cymharol fyr, a bod partneriaid wedi gwneud ymdrech fawr i gynhyrchu'r asesiad drafft. O bwys arbennig i'r Swyddfa yw eich bod wedi sicrhau bod yr asesiad yn disgrifio sut mae ymgysylltu ac ymgynghori wedi trwytho eich dealltwriaeth o lesiant yn yr ardal.

Credwn fod angen mynd i'r afael â'r materion canlynol i wella'r asesiad:

*cyd-destun strategol* - pennu cyd-destun ehangach ar gyfer Sir y Fflint dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor i ddarparu'r 'sefyllfa' ar gyfer y pynciau

*nodau llesiant* - dealltwriaeth fanylach o'r berthynas rhwng y 35 pwnc a adnabuwyd a'r saith nod llesiant cenedlaethol

*ardal a lle* - mwy o dealltwriaeth o lesiant o fewn ardaloedd Sir y Fflint, ei threfi, ardaloedd gwledig ac ardaloedd arfordirol i adlewyrchu yn well y materion allweddol i lesiant mewn gwahanol leoliadau - a datblygu'r saith proffil ardal i helpu'r broses hon.

*dehongliad ac arwyddocâd y data a chyd-destun ehangach* - mwy o eglurhad ar sut mae'r 35 pwnc a adnabuwyd yn effeithio ar lesiant unigolion a chymunedau a'u harwyddocâd yn benodol i Sir y Fflint

*integreiddio ar draws themâu* - mwy o ffocws ar y gydberthynas rhwng y data a gasglwyd a goblygiadau'r 35 pwnc hyn i lesiant

*heriau ac asedau* - rhoi synthesis cliriach o heriau i lesiant yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor a dealltwriaeth ehangach o asedau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol a'u rôl mewn llesiant ar draws yr ardal.

*cyd-destun rhanbarthol* - gwell dealltwriaeth o rôl Sir y Fflint o fewn ardal Gogledd Cymru ac yn ardal Cynghrai Merswy a Dyfrdwy

*tueddiadau'r dyfodol* - rhoi mwy o sylw i effaith posibl tueddiadau'r hirdymor ar Sir y Fflint yn gyffredinol a'r saith ardal gymunedol

*Symud ymlaen* - rhoi disgrifiad cliriach o sut mae data'r asesiad yn bwriadu cael ei ddefnyddio a sut fydd bylchau data'n cael eu rheoli a sut fydd cynllunio llesiant yn mynd rhagddo yn Sir y Fflint

Cydnabyddir y gellid mynd i'r afael â rhai o'r rhain yng ngweithgareddau arfaethedig y BGC rhwng nawr a chyhoeddiad terfynol yr asesiad.

Gobeithiwn y bydd y materion a godwyd uchod yn llywio'r cydweithio hwn fel bod yr elfennau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n gryfach gan y BGC yn Asesiad Llesiant terfynol Sir y Fflint a thrwy gydol y broses cynllunio llesiant.